

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

**Aelodau:**

Lindsay Foyster	Cadeirydd ac aelod anweithredol
Adrian Crompton	Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru
Alison Gerrard	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol
Adam Marshall	Aelod a etholwyd o blith y cyflogeion
Anne Beegan	Aelod a etholwyd o blith y cyflogeion
David Francis	Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
Elinor Gwynn	Aelod anweithredol
Ian Rees	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Kevin Thomas	Aelod a benodwyd o blith y cyflogeion a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (CGGC)

**Ymddiheuriadau:** Anne-Louise Clark, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (CGCN)

**Hefyd yn****bresennol:**

Ann-Marie Harkin	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (CGGA)
Katherine Drysdale	Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion)
Amanda Jenkins	Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd (eitemau 8 ac 11)
Aneesa Ali	Arweinydd Archwilio (eitem 9)
Ceri Hughes	Rheolwr y Rhaglen Newid (eitemau 8 ac 11)
Nicola Evans	Pennaeth Cyllid (eitemau 7 ac 8)
Terry Jones	Rheolwr Archwilio (eitem 9)
Tom Haslam	Rheolwr Archwilio (eitem 9)

**Sylwedyddion:**

Gary Emery	Cyfarwyddwr Archwilio
Kathryn Davies	Uwch Reolwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Tracy Veale	Rheolwr Archwilio

Eitem	Agenda
1	Croeso'r cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2	Datganiadau o fuddiant
3	Adolygu cofnodion: Cyfarfodydd y Bwrdd 19 a 27 Gorffennaf 2022
4	Adolygu'r offeryn tracio camau gweithredu
5	Adroddiad y Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol
6	Diweddariad y Cadeirydd
7	Amcangyfrif 2023-24
8	Adroddiad Perfformiad Integredig
9	Ansawdd Archwilio
10	Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 13 Medi 2022
11	Adroddiad Interim: strwythur ac amserlen
12	Unrhyw fater arall
13	Adolygu'r flaenraglen waith
14	Adolygu'r cyfarfod

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

Eitem	Agenda
15	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Busnes Dydd Iau 24 Tachwedd 2022; Datblygu Dydd Llun 05 a Dydd Mawrth 06 Rhagfyr 2022

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
<b>Eitemau Sefydlog</b>		
<b>1</b>	<b>Croeso'r cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb</b>	
1.1	Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu'r aelodau a'r rhai a oedd hefyd yn bresennol, gan nodi ymddiheuriad am absenoldeb gan Anne-Louise Clark.	
1.2	Byddai Elinor Gwynn yn ysgrifennu'r blog am y cyfarfod, gan ymgorffori negeseuon allweddol a gofnodwyd gan y CGCN ar gyfer y cyfarfod strategol ar 20 Medi a CGGC ar gyfer y cyfarfod busnes ar 27 Medi.	EG
<b>2</b>	<b>Datganiadau o fuddiant</b>	
2.1	Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	
<b>3</b>	<b>Adolygu cofnodion: Cyfarfodydd y Bwrdd ar 19 a 27 Gorffennaf 2022</b>	
3.1	Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo cofnodion ei gyfarfodydd ar 19 a 27 Gorffennaf 2022.	
<b>4</b>	<b>Adolygu'r offeryn tracio camau gweithredu</b>	
4.1	<p>Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau am gamau gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn eu hadlewyrchu ar yr offeryn tracio, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• WAOB/21/061 (Y Gofrestr Risgiau Strategol): diwygio'r dyddiad cwblhau targed i fis Rhagfyr 2022, atgoffa'r aelodau i ddarparu adborth i oleuo datblygiad y fframwaith adrodd risg a sicrwydd.</li> <li>• WAOB/22/010 (Digwyddiad y Gyfnewidfa Arfer Da): ei gau gan bod y digwyddiad wedi bod.</li> <li>• WAOB/22/013 (Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth): atgoffa'r Rheolwr Datblygu a Chanllawiau Archwilio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y llyfrgell gyfeirio.</li> <li>• WAOB/22/021 (Adroddiad Perfformiad Integredig): ei gau, gan bod adolygiad y grŵp gorchwyl a gorffen wedi bod ac y bydd adroddiad yn datblygu fesul tipyn yn awr gyda mewnbwn gan y grŵp yn ôl yr angen.</li> <li>• WAOB/22/022 (Iechyd a Diogelwch): ei gau gan bod yr adolygiad ac adroddiadau ar falansau absenoldeb a risgiau cysylltiedig yn rhan o fusnes wedi'i gynllunio trwy adroddiadau i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol a'r Bwrdd.</li> </ul>	YB
<b>5</b>	<b>Adroddiad y Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol</b>	
5.1	<p>Cyflwynodd y Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad a thynnodd sylw'r aelodau at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ail-lansiad y swyddogaeth cymorth arolygon i wasanaethu fel canolfan ragoriaeth ar gyfer datblygu arolygon a chynghor yn eu cylch, gyda phrosesau wedi'u gwreiddio i fynd i'r afael â phryderon mewn</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	<p>perthynas ag arolygon a godwyd yn adroddiad y SDD i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2021;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>gwaith Swyddog newydd y Gymraeg i ystyried canfyddiadau o ymarfer cwsmer cudd gan Gomisiynydd y Gymraeg a chynnal ei ddadansoddiad ei hun o fylchau o ran cydymffurfio a pherfformiad yn erbyn Strategaeth y Gymraeg. Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai o gymorth pe bai un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn rhan o ddull Archwilio Cymru o ymdrin â materion a/neu risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg;</li> <li>effaith oedi cyn llofnodi Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, a'r adroddiad ar daliad ymadael i'r Ysgrifennydd Parhaol blaenorol a fyddai'n cael ei gyhoeddi'n fuan, gan gynnwys rhai heriau gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag arfer ei hawl statudol i fynediad at wybodaeth a oedd yn angenrheidiol i archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2021-22; a hefyd</li> <li>canlyniad sesiwn graffu'r Pwyllgor Cyllid ar 22 Medi 2022.</li> </ul>	
5.2	Roedd hi'n dda gan y Bwrdd nodi bod y Pwyllgor Cyllid wedi cefnogi'r Amcangyfrif Atodol i gyllido'r broses o symud swyddfa i Gwr y Ddinas.	
5.3	Cydnabu'r Bwrdd effaith negyddol bosibl y materion a oedd yn codi o'r archwiliad statudol o gyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21 ar y berthynas rhwng Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru, gan nodi'r her ddiweddar a godwyd mewn perthynas â hawliau mynediad statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ynghylch y cynllun ffioedd a oedd yn awgrymu'r angen am drafodaeth ynglŷn â chost a gwerth craffu gan archwilwyr allanol ar gyrff cyhoeddus. Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac fe ofynnodd iddo roi diweddariadau i'r aelodau am unrhyw ddatblygiadau. Byddai'r Bwrdd yn ystyried adborth ar yr ymgynghoriad ynghylch y cynllun ffioedd dan eitem 7 (Amcangyfrif 2023-24).	
5.4	<p>Bu'r Bwrdd yn trafod</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>yr uchelgais i gyflawni statws sero net a pha un a allai mecanweithiau cymorth fel Parod at y Dyfodol roi cymorth. Byddai'r CGGC yn gwneud gwaith dilynol gydag Elinor Gwynn y tu allan i'r cyfarfod i ddysgu mwy am y grwpiau a rhwydweithiau cymorth;</li> <li>yr adnoddau a ddefnyddir yng ngwaith y Bartneriaeth Symudedd Cymdeithasol, gan nodi gwerth buddsoddi mewn ehangu cyfranogiad a allai helpu i ddatblygu mwy o amrywiaeth yng ngweithlu Archwilio Cymru yn y dyfodol, yn unol â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a'r manteision i gyfranogwyr. Nododd y Bwrdd fod y digwyddiad hwn yng Nghaerdydd, ond bod disgwyl i'r elusennau dan sylw ehangu'r rhaglen gyda digwyddiadau yng Ngorllewin a Gogledd Cymru;</li> <li>yr awch i ddatblygu, a manteision posibl datblygu, strategaeth y Gymraeg y tu hwnt i gydymffurfio a sut y gallai'r Gymraeg gael ei</li> </ul>	CGGC

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	<p>gwreiddio a'i hintegreiddio mewn dull dwyieithog o fewn gwaith a phrosesau Archwilio Cymru;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pa Bwyllgor ddylai berchenogi materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan nodi y byddai priod Gadeiryddion y Pwyllgorau'n cytuno ar hyn o tu allan i'r cyfarfod;</li> <li>• y swyddogaeth cymorth arolygon, gan nodi bod rhagor o wybodaeth ar gael mewn cyflwyniad gan y TAG, y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei ddarparu trwy lyfrgell gyfeirio'r Bwrdd, ac y byddai disgwyl cael diweddariad ar y swyddogaeth trwy adroddiad nesaf y SDD i'r Bwrdd ym mis Tachwedd;</li> <li>• yr amseriad ar gyfer rhoi'r system Rheoli Amser ac Adnoddau ar waith a hyfforddiant ar ei gyfer, gan nodi y byddai'r CGGA yn ymchwilio i ddatblygu cyfathrebiadau i roi gwybodaeth gyson i staff am y broses o'i chyflwyno a'u cynnwys yn gyson yn y broses honno; a hefyd</li> <li>• diweddariad y rhaglen newid ar ganolfannau teithio, gan nodi bod trafodaethau anffurfiol gyda staff yn mynd rhagddynt i geisio adborth ar ddatblygu cynigion a fyddai'n symud ymlaen yn y ffordd arferol trwy'r TAG yna'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol i gael eu hargymell wrth y Bwrdd, cyn agor proses ymgynghori ffurfiol gyda staff.</li> </ul>	<p>Cadeiryddion PCAac AD / PAaSA</p> <p>YB</p> <p>CGGA</p>
5.5	Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r adroddiad fel arall.	
<b>6</b>	<b>Diweddariad y Cadeirydd</b>	
6.1	Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig a rhoddodd ddiweddariad i'r aelodau ar y cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid am reoli'r cworwm. Atgoffodd yr aelodau anweithredol am effaith eu habsenoldeb ar y cworwm a gofynnodd iddynt wirio'u hargaeledd ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2023-24 ac, unwaith y cytunir ar ddyddiadau terfynol, eu bod yn ymrwymo i fod yn bresennol oni cheir amgylchiadau lleihaol eithriadol.	
6.2	Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r adroddiad.	
<b>7</b>	<b>Amcangyfrif 2023-24</b>	
7.1	<p>Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid bapur a oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn amlinellu'r newidiadau a wnaed i'r Amcangyfrif drafft yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod strategol ar 20 Medi;</li> <li>• yn ceisio mewnbwn y Bwrdd ar unrhyw newidiadau pellach; ac</li> <li>• yn gofyn i'r Bwrdd awdurdodi'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol i gymeradwyo fersiwn derfynol yr Amcangyfrif ar gyfer 2023-24 i'w chyflwyno gerbron y Pwyllgor Cyllid ar ddiwedd mis Hydref.</li> </ul>	
7.2	<p>Fe wnaeth y Bwrdd adolygu'r Amcangyfrif drafft.</p> <p><u>Cynnydd yn y Cyllid</u></p> <p>Bu'r Bwrdd yn trafod y lefel cyllid yr oedd ei hangen i dalu am effaith safonau archwilio newydd (gan gydnabod yr ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch gofynion o ran adnoddau er mwyn rhoi'r safonau ar waith) a'r setliad cyflog. Er bod y Bwrdd yn cytuno y byddai peth hyblygrwydd yn</p>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	<p>ddoeth, dylai hyn gael ei arwain gan anghenraid ac ystyried unrhyw weithgarwch lliniarol a allai helpu i reoli costau. Dywedodd y CGGA y byddai hi'n ysgrifennu at gyrff a archwilir i egluro sut y gallent helpu i liniaru ffioedd trwy weithio gyda'r timau archwilio i ddarparu gwybodaeth amserol ac o ansawdd da. Nododd y Bwrdd y byddai lefel derfynol y cynnydd ar y cyfan yn cael ei meincnodi yn erbyn y lefelau cyllid a geisir gan y Cyrff Cyhoeddus eraill a Gyllidir yn Uniongyrchol, ac fe gytunodd na ddylai cyfanswm y cynnydd yn y cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru a geisir gan Swyddfa Archwilio Cymru fod yn ddim mwy na 5.5%.</p> <p><u>Arbedion</u></p> <p>Nododd y Bwrdd fod yr Amcangyfrif yn ymgorffori paramedrau ar gyfer lefelau arbedion, ond y byddai'r manylion yn dod i'r amlwg o adolygiad gan y TAG a deiliaid cyllidebau yn gynnwys yn 2023 ac y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Byddai'r adolygiad yn cynnwys ystyried gweithgareddau nad oeddent yn ganolog i gyflawni gwaith archwilio a pha un a ellid gohirio'r rhain, neu fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gydymffurfio.</p> <p><u>Ymatebion i'r Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Ffioedd</u></p> <p>Roedd y Bwrdd yn awyddus i weld yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y cynllun ffioedd yn cael eu cydnabod a bod ymateb iddynt yn cael ei gynnwys yn yr Amcangyfrif, gan gydnabod y pwysau ar gyrff a archwilir. Awgrymodd y Bwrdd fod yr Amcangyfrif yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• esboniad sut yr oedd y sefydliad wedi ceisio amsugno costau i osgoi neu gyfyngu ar godiadau mewn ffioedd a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ei fod yn methu â pharhau i wneud hynny yn wyneb pwysau chwyddiant a'i fod yn amcanu at liniaru codiadau lle y bo'n ddichonadwy; ac</li> <li>• enghreifftiau o werth y cynnydd yn y ffi i gyrff nodweddiadol a'r cynnydd fel cyfran o wariant y sector cyhoeddus i roi persbectif ynghlŷn â'r gwerthoedd dan sylw.</li> </ul> <p><u>Lefelau ffioedd y gellir eu codi</u></p> <p>Eglurodd y Pennaeth Cyllid y byddai cynyddu lefelau y gellir eu codi'n gallu lleihau'r cynnydd canrannol yng nghyfraddau ffioedd. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd yn cydnabod bod lefelau'r targedau a bennwyd o ran ffioedd y gellir eu codi'n uwch na'r llynedd, a'i bod yn annhebygol y gellid cyflawni codiadau pellach heb newid i'n ffyrdd o weithredu neu heb gael effaith negyddol trwy gynyddu pwysau ar staff.</p> <p><u>Newid o Ffioedd i Gyllid</u></p> <p>Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod llythyr wedi dod i law a oedd yn dynodi na fyddai'r Pwyllgor Cyllid yn cytuno â newid arfaethedig o ffioedd i gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru heb gefnogaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi codi cwestiynau ynghylch y newid arfaethedig a byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn ymateb i'r rhain cyn gynted â phosibl. Nododd y Bwrdd mai bwriad y newid mewn cyllid oedd</p>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	rhoi cymorth i gyflawni'r strategaeth pum mlynedd trwy gyflawni gwaith trawsbynciol thematig tymor hwy. Awgrymodd y Bwrdd, pe na bai Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r newid rhwng ffioedd a chyllid o Gronfa Gyfunol Cymru, y byddai'r cais yn cael ei dynnu allan o'r Amcangyfrif.	
7.3	Roedd y Bwrdd yn fodlon i'r Pennaeth Cyllid baratoi drafft terfynol o'r Amcangyfrif gan ystyried ei drafodaethau pellach. Fe wnaeth y Bwrdd awdurdodi Cadeirydd y Bwrdd a'r Archwilydd Cyffredinol i gymeradwyo a llofnodi'r Amcangyfrif ar gyfer 2023-24 i'w gyflwyno gerbron y Pwyllgor Cyllid erbyn diwedd mis Hydref 2022, gan ystyried y paramedrau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd.	ACC / Cadeirydd
<b>8</b>	<b>Adroddiad Perfformiad Integredig</b>	
8.1	Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Newid bapur a oedd yn darparu diweddariad ar y meysydd ffocws cyfredol ar gyfer y TAG, y sefyllfa ariannol hyd at ddiwedd mis Awst a rheoli adnoddau.	
8.2	Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y sgôr ambr i iechyd ariannol yn adlewyrchu'r diffyg ar ddiwedd y flwyddyn a oedd yn cael ei ragweld ar hyn o bryd. Eglurodd ei bod yn monitro'r sefyllfa'n fanwl a'i bod wedi gofyn i ddeiliaid cyllidebau adnabod ble y gellid rhyddhau arbedion.	
8.3	Gofynnodd y Bwrdd am sicrwydd bod camau lliniarol priodol ac amserol yn eu lle i fynd i'r afael â'r diffyg a nododd y byddai ffigyrau mis Medi'n darparu dealltwriaeth fwy eglur am yr incwm a ddisgwyliad erbyn diwedd y flwyddyn. Fel rhan o'i fusnes arferol byddai'r TAG yn adolygu'r adroddiadau ariannol a oedd ar ddod ac yn cynllunio unrhyw gamau gweithredu a fyddai'n angenrheidiol. Roedd y Bwrdd yn croesawu'r diweddariad cryno fel rhan o'r adroddiad integredig ond dynododd y gallai cyd-destun pellach yn yr adroddiad i'r Bwrdd ym mis Tachwedd helpu i roi sicrwydd priodol os oedd diffyg yn cael ei ragweld.	
8.4	Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd y Pennaeth Cyllid fod disgwyl i'r newidiadau i Yswiriant Gwladol arwain at arbed oddeutu £50,000. Er na fyddai'n disgwyl dychwelyd y swm hwnnw trwy Amcangyfrif Atodol, byddai'n disgwyl am gyfarwyddyd gan y Pwyllgor Cyllid.	
8.5	<p>Diolchodd y Bwrdd i'r CGCN am y fersiwn hon o'r fformat adroddiad integredig a fyddai'n cael ei ddatblygu i ddarparu'r diweddariad llawn ar gyfer chwarter 2 ym mis Tachwedd. Darparodd y Bwrdd adborth ar ffurf a chynnwys yr adroddiad, yn arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y cynnwys a'r amseriad ar gyfer cyflwyno data ar ddarparu adnoddau mewn modd effeithiol, gan nodi fel risg strategol gyfredol, fod y TAG yn bwriadu rhoi blaenoriaeth i ddarparu adnoddau fel maes ffocws;</li> <li>• darparu eglurder ynghylch y cysylltiadau rhwng y data a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ac a oedd yn ei danategu ar y naill law a'r strategaeth pum mlynedd a strategaethau eraill ar y llaw arall, gan nodi bod yr adroddiad trosfwaol wedi'i fwriadu i ddarparu ffocws ar y materion allweddol a darparu sicrwydd ar lefel strategol; a</li> </ul>	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu golwg gryfach gan y TAG i dynnu sylw'r Bwrdd at feysydd allweddol sy'n peri pryder ar gyfer mewnbwn gan y Bwrdd. Byddai'r Cadeirydd yn adolygu'r cynnwys a'r modd yr oedd data ar ddarparu adnoddau wedi'i gyflwyno gyda'r CGGA. Wedyn byddai'r Bwrdd yn adolygu cynnwys a fformat yr adroddiad integredig yn dilyn fersiwn Chwarter 2 y byddai'n ei chael yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.</li> </ul>	Cadeirydd / CGGA
8.6	Cyflwynodd yr Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd bapur a oedd yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd am y gyfres ddiweddaredig o risgiau strategol a oedd yn ystyried yr adolygiad risg blynyddol gan ddefnyddio dalen wag.	
8.7	<p>Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 21/008 (cadw staff) a 21/018 (absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff) a pha un a oedd y geiriad yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r gwir risgiau.</li> <li>• 21/007 (recriwtio a chadw staff archwilio) a oedd i'w gweld fel pe bai'n gorgyffwrdd â 21/008 a pha un a oedd cynllun addas i liniaru'r risg.</li> <li>• ymgysylltiad staff a pha un a ddylid cynnwys hyn ar y gofrestr fel risg ar wahân, gan bod hyn yn dal i fod yn faes ffocws.</li> </ul> <p>Byddai'r CGGC yn adolygu'r risgiau a'r meysydd a drafodwyd ac yn darparu diweddariad ar gyfer yr adroddiad nesaf i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.</p>	CGGC
8.8	Nododd y Bwrdd fod oddeutu hanner y risgiau ar y gofrestr yn rhai a oedd yn gysylltiedig â phobl ac y gallai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ystyried y safbwynt ehangach hwnnw.	
8.9	Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r adroddiad perfformiad integredig ac roedd yn fodlon bod y gyfres ddiweddaredig o risgiau strategol yn cynrychioli'r risgiau allweddol sy'n wynebu Archwilio Cymru mewn modd digonol.	
<b>9</b>	<b>Ansawdd Archwilio</b>	
(a) adroddiad blynyddol		
9.1	Cyflwynodd y CGGA bapur a oedd yn cyflwyno'r ail adroddiad ansawdd blynyddol yn y fformat diwygiedig, a hwnnw'n ystyried yr adborth ar y rhifyn cyntaf o'r adroddiad gan gynnwys ymgorffori astudiaethau achos. Amlygodd bwysigrwydd cyflawni a dangos ansawdd archwilio wrth gyflawni rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ac i wireddu uchelgeisiau Archwilio Cymru.	
9.2	Yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd Archwilio, dywedodd y CGGC fod yr adroddiad yn adlewyrchu manteision buddsoddiad ychwanegol mewn ansawdd archwilio ac y byddai'n bwysig adeiladu ar ansawdd archwilio a oedd yn ganolog i raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol.	
9.3	Rhoddodd yr Arweinydd Archwilio amlinelliad byr o strwythur a diben yr adroddiad, a'r camau nesaf o ran rhannu'r adroddiad yn fewnol a'i gyhoeddi'n allanol.	
9.4	Nododd y Bwrdd, mewn ymateb i gwestiynau a godwyd cyn y cyfarfod, fod y CGGA wedi darparu nodyn briffio ychwanegol ar gyfer aelodau a fyddai'n	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	<p>cael ei atodi wrth y pecyn fel rhan o gofnod y cyfarfod. Bu'r Bwrdd yn trafod nifer yr adolygiadau oer, pa un a oedd y sampl honno'n rhoi adlewyrchiad cywir o'r boblogaeth a sut y gellid cynnwys cyd-destun ychwanegol i ddarparu dealltwriaeth well yn enwedig wrth ystyried hynny yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y cynllun blynyddol. Rhoddodd y CGGA amlinelliad byr o gyfundrefn sicrwydd ansawdd Archwilio Cymru, a oedd yn cynnwys Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymrwymadau, adolygiadau thematig, cymedroli, adolygu adroddiadau gan gymheiriaid yn ogystal ag adolygiadau oer. Eglurodd fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• roedd hi wedi'i hargyhoeddi bod y fethodoleg ehangach, defnyddio gwasanaeth QAD (adolygwyr ansawdd proffesiynol), y Pwyllgor Ansawdd Archwilio mewnol a chynnwys aelod cyswllt o'r Bwrdd yn darparu sicrwydd cyffredinol ynghylch ansawdd;</li> <li>• roedd y pedwar adolygiad oer yn 2020-21 yn rhoi cyfrif am 6.7% o'r boblogaeth (yn y bôn un archwiliad am bob Cyfarwyddwr Archwilio Ariannol) ond byddai dull diwygiedig a fabwysiadwyd ar gyfer 2021-22 yn golygu y byddai hynny'n cynyddu i 8%;</li> <li>• er ei bod hi'n anodd meincodi'n uniongyrchol yn erbyn cyrff archwilio cyhoeddus eraill, roedd ein dull yn gymaradwy; a</li> <li>• byddai ehangu maint y sampl yn golygu cynnydd sylweddol mewn costau.</li> </ul>	
9.5	<p>Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y fframwaith ansawdd archwilio, gan gynnwys adolygiadau mewnol ac allanol a nifer yr adolygiadau;</li> <li>• y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer ansawdd archwilio a pha un a ddylid cynnal hyn er mwyn cysondeb adroddiadau;</li> <li>• y broses dysgu ar ôl prosiectau, a oedd yn ystyried adborth gan gyrff a archwilir a sut yr oedd gwersi o adolygiadau ansawdd yn cael eu lledaenu;</li> <li>• pa un a allai adolygiadau mewnol ac allanol ar yr un maes gael eu cynnal i adnabod unrhyw duedd gadarnhaol fewnol neu anghysonderau, gan nodi bod hyn wedi cael ei wneud yn flaenorol a heb godi unrhyw faterion o bwys, a bod defnyddio staff o'r tu allan i'r practis i gynnal adolygiadau mewnol yn helpu i ddarparu barn ddiduedd; a</li> <li>• pha un a ellid cynnwys paragraff ychwanegol ar gyfathrebu i amlygu pwysigrwydd integreiddio ansawdd i mewn i waith archwilio.</li> </ul>	
9.6	Fe wnaeth y Bwrdd groesawu a nodi'r adroddiad.	
<b>(b) effaith archwilio</b>		
9.7	<p>Rhoddodd y Rheolwr Archwilio (TH) gyflwyniad ar effaith archwilio a oedd yn amlinellu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymchwil a gynhaliwyd i effaith archwilio, a chrynodeb o'r canfyddiadau allweddol;</li> </ul>	



**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sut i fesur effaith ac adrodd arni a sut i gynyddu'r effaith a'r goblygiadau ar gyfer Archwilio Cymru;</li> <li>• y deg arfer da i ddangos effaith;</li> <li>• yr hyn y mae swyddfeydd archwilio eraill yn ei wneud;</li> <li>• sut y mae Archwilio Cymru'n cymharu a beth fyddai'n ei wneud mewn meysydd ffocws gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ rhaglen waith strategol;</li> <li>○ gwella ein hargymhellion;</li> <li>○ cryfhau gwaith dilynol;</li> <li>○ gwella gwersi o brosiectau; a hefyd</li> <li>○ y camau nesaf posibl i Archwilio Cymru</li> </ul> </li> </ul>	
9.8	Fe wnaeth y Rheolwr Archwilio gyfeirio'r aelodau at bapur y TAG ar Effaith Archwilio (ar gael yn llyfrgell gyfeirio'r Bwrdd) ar gyfer rhagor o wybodaeth a dynododd y byddai'n hapus i aelodau gysylltu ag ef gydag unrhyw gwestiynau neu sylwadau.	
9.9	Diolchodd y Bwrdd i'r Rheolwr Archwilio am gyflwyniad trylwyr yn llawn gwybodaeth.	
9.10	Nododd y Bwrdd y byddai'r CGGC yn adrodd ar unrhyw wybodaeth neu wersi perthnasol o'i gyfarfodydd chwarterol gyda Phrif Swyddogion Gweithredu'r cyrff archwilio cyhoeddus eraill.	
<b>10</b>	<b>Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg</b>	
10.1	Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor AaSR ei adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Medi. Eglurodd fod y Pwyllgor yn bwriadu cynnal ei astudiaeth fanwl strategol nesaf ar faes lle'r oedd lefelau sicrwydd ar y cyfan yn isel. Byddai'n rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn rhithwir pan fyddai wedi pennu'r testun arfaethedig a fyddai'n cael sylw.	IR
10.2	Eglurodd Cadeirydd y PAaSR y byddai'r penodiad archwilio allanol yn dod i ben ym mis Tachwedd 2022 a rhoddodd ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cynnydd o ran caffael cyflenwr newydd. Eglurodd, er mai dim ond un cynnig oedd wedi dod i law, fod yr asesiad wedi dangos gwerth am arian ac ansawdd, er y byddai cynnydd yn y ffi a oedd yn adlewyrchu'r farchnad.	
10.3	Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer am y lefel isel o geisiadau, gan nodi bod contract Archwilio Cymru'n un ac iddo werth gweddol isel mewn marchnad gystadleuol iawn.	
10.4	Ar argymhelliad y Pwyllgor, cytunodd y Bwrdd y byddai'n cyflwyno argymhelliad i Bwyllgor Cyllid y Senedd i benodi RSM fel archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd gan ddechrau o 02 Tachwedd 2022, gydag opsiwn i estyn y cyfnod yn flynyddol wedi hynny hyd at gyfanswm o 7 mlynedd.	
10.5	Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r adroddiad fel arall.	
<b>11</b>	<b>Adroddiad Interim: strwythur ac amserlen</b>	
11.1	Bu'r Bwrdd yn ystyried papur a oedd yn amlinellu'r strwythur ac amserlen arfaethedig ar gyfer cyflawni'r adroddiad interim a fyddai'n darparu asesiad o'r cynnydd yn erbyn cynllun blynyddol 2022-23.	

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**  
**Cofnodion y cyfarfod ar ddydd Mawrth 27 Medi 2022**

<b>Eitem</b>	<b>Cofnodion</b>	<b>Cam Gweith-redu</b>
11.2	Roedd y Bwrdd yn fodlon ar y cynnig ac fe awdurdododd y Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol i gymeradwyo a llofnodi'r fersiwn derfynol o'r Adroddiad Interim.	ACC / Cadeirydd
<b>12</b>	<b>Unrhyw fater arall</b>	
12.1	Nid oedd unrhyw fater arall.	
<b>13</b>	<b>Adolygu'r Flaenraglen Waith</b>	
13.1	Fe wnaeth y Bwrdd nodi ei flaenraglen waith a fyddai'n cael ei hadolygu'n gyson	
13.2	Fe wnaeth y Cadeirydd atgoffa'r aelodau i gadarnhau eu hargaeledd ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd arfaethedig yn 2023-24 ac, oni cheid ymateb erbyn 07 Hydref 2022, y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn tybio bod aelodau ar gael.	
<b>14</b>	<b>Adolygu'r cyfarfod</b>	
14.1	Fe wnaeth y Bwrdd groesawu adborth gan y sylwedyddion a wnaeth y sylwadau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• roedd nifer fawr o bapurau, a'r rheiny wedi cael sylw manwl ac eang gydag ystod o safbwyntiau'n cael eu cynnig gan aelodau;</li> <li>• cafodd gwybodaeth am faterion allweddol ar lefel ymarferol yn Archwilio Cymru ei dosbarthu a'i thrafod yn eglur gan y Bwrdd;</li> <li>• roedd presenoldeb yn rhoi ymdeimlad o gynnwys a grymuso;</li> <li>• rhoddodd trafodaethau'r Bwrdd sicrwydd bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau'n cynnwys y ffocws cywir i symud y sefydliad yn ei flaen;</li> <li>• roedd aelodau'r Bwrdd ym ymgysylltu'n frwd ac yn gweithredu'n strategol; ac</li> <li>• roedd y Bwrdd i'w weld fel pe bai'n ymdrin â llawer, ac o bosibl gormod, yn y cyfarfod.</li> </ul>	
14.2	Pwysleisiodd y Cadeirydd fod cyfarfodydd y Bwrdd yn agored i unrhyw aelodau o staff arsylwi arnynt a dywedodd y byddai'n croesawu pe bai sylwedyddion o blith y staff yn rhannu eu profiadau gyda chydweithwyr.	
14.3	Nododd y Cadeirydd fod yr agenda wedi rhoi sylw i destunau pwysig a oedd wedi cymryd amser i'w trafod, ac y byddai hyn yn cael ystyriaeth bellach ar adeg cynllunio. Roedd hi'n falch o weld bod yr adroddiad perfformiad integredig wedi cael ei gyflwyno ac yn croesawu dull ailadroddol a chydweithredol o'i ddatblygu.	
<b>15</b>	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b>	
15.1	Cyfarfod Busnes: Dydd Iau 24 Tachwedd 2022 Datblygu'r Bwrdd a'r TAG: Dydd Llun 05 a dydd Mawrth 06 Rhagfyr	